



TARGET

Keep Antibiotics Working



Sut i gasglu sampl wrin dal glân

Ar gyfer babanod a phlant bach


Dull dal glân

1




Golchwch eich dwylo â sebon a dŵr cyn ac ar ôl casglu'r sampl.

2



Tynnwch gaead y cynhwysydd a'i osod ar arwyneb glân gyda'r tu mewn i fyny.

3



Ar gyfer plant sydd wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled, gosodwch eich hun fel y gallwch gasglu rhywfaint o wrin (pi) yn y cynhwysydd tra bod y plentyn yn pasio wrin. Ceisiwch osgoi'r ychydig ddiferion cyntaf a chasglwch yr wrin canol-llif. Llenwch y cynhwysydd â chymaint o wrin â phosibl heb iddo orlifo, neu hyd at y llinell a farciwyd os oes un.


4



Bydd llawer o fabanod a phlant bach yn pasio wrin yn fuan ar ôl yfed neu fwydo. Gallwch geisio casglu sampl yn ystod amser heb gewynnau yn yr awr ar ôl bwydo.

- Cadwch y cynhwysydd wrth law a thynnwch gewyn y plentyn. Glanhewch a sychwch yr organau cenedlu.
- Rhowch y plentyn ar liain neu bad golchadwy a'i wyllo'n ofalus.
- Pan fydd yn dechrau pasio wrin, daliwch y cynhwysydd i fwrdd o'i croen a chasglwch ychydig o wrin.

5



Gall rhwbio'r ardal uwchbiwbig (rhan isaf y bol, yn y canol) yn ysgafn â rhwyllen neu wllân cotwm oer, llaith annog y plentyn i basio wrin.

6



Ar ôl i chi gasglu'r sampl, rhowch y caead ar y cynhwysydd ar unwaith a'i dynhau'n ddiogel.

7



Peidiwch â defnyddio padiau, gwlân cotwm, rhwyllen nac unrhyw ddeunyddiau eraill i gasglu wrin, gan y gallant effeithio ar ganlyniadau'r prawf.

Pwyntiau cyffredinol

- **Glanhewch a sychwch organau cenhedlu'r plentyn** cyn casglu'r sampl.
- **Golchwch eich dwylo bob amser** â sebon a dŵr cyn ac ar ôl casglu unrhyw sampl wrin.
- **Peidiwch ag agor y cynhwysydd di-haint** nes eich bod yn barod i gasglu'r sampl.

- **Osgowch gyffwrdd â thu mewn y cynhwysydd**, ac osgowch adael i organau cenhedlu'r plentyn gyffwrdd ag unrhyw ran ohono.
- Labelwch y cynhwysydd cyn casglu'r sampl **os yw eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi gofyn i chi wneud hynny**.

Gwybodaeth gryo

Beth yw sampl wrin dal glân?

Sampl dal glân yw wrin sy'n cael ei gasglu'n syth i mewn i gynhwysydd heb iddo gyffwrdd â'r croen, yr organau cenhedlu nac unrhyw arwynebau.

Pam mae angen i mi gymryd sampl dal glân?

Mae'r dull hwn yn helpu i atal germau o'r tu allan i'r corff rhag mynd i mewn i'r wrin, gan roi canlyniadau prawf mwy cywir.

A allaf ddefnyddio jar neu gynhwysydd o gartref?

Dylech ddefnyddio'r cynhwysydd y mae eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi'i roi i chi i gasglu'r sampl.

Oes ots pryd y byddaf yn casglu'r sampl?

Ceisiwch gasglu'r sampl mor agos â phosibl i'ch apwyntiad er mwyn cael sampl o'r ansawdd gorau. Ceisiwch gymryd y sampl cyn i'r plentyn gymryd gwrthfotigau.

Awgrymiadau ar gyfer dychwelyd sampl wrin

- ✓ **Dychwelwch y sampl yn gyflym**
Ewch ag ef at eich darparwr gofal iechyd cyn gynted â phosibl – yn ddelfrydol o fewn dwy awr.
- ✓ **Cadwch e'n oer**
Os na allwch chi ddanfôn y sampl yn gyflym, rhowch ef mewn bag plastig a'i storio yn yr oergell nes y gallwch chi wneud hynny.
- ✓ **Gwiriwch amseroedd gollwng**
Gofynnwch pryd yw'r amser gollwng hwyraf, fel y gall y sampl gyrraedd y labordy yr un diwrnod.
- ✓ **Defnyddio cynwysyddion di-haint arbennig**
Mae gan rai cynwysyddion bowdr cadwol a llinell lenwi wedi'i marcio. Ceisiwch lenwi hyd at y llinell, ond os na allwch, casglwch gymaint o wrin ag y gallwch.

Sganiwch yma
am ragor o
wybodaeth

